**PWYLLGOR Y CYFANSODDIAD A GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**
**DYDD MERCHER, 15 MAWRTH 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Cyfarfod mynychu o bell Dydd Mercher, 15 Mawrth 2023

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Rob Davies (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Gillian Brockley, David Coggins Cogan, Steve Copple, Ian Hodge, Alasdair Ibbotson, Gina Maddison, Roz Mansell, Ted Palmer, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Linda Thew, Arnold Woolley, ac Antony Wren.

**YMDDIHEURIAD:** Y Cynghorydd Jean Davies

**HEFYD YN BRESENNOL:** Cynghorydd Bernie Attridge (fel arsyllwr)

**DIRPRWY:** Y Cynghorydd Christine Jones ar ran y Cynghorydd Paul Johnson

**YN BRESENNOL:** Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**26. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y byddai cysylltiad personol yn cael ei gofnodi ar gyfer pob Aelod ar eitem 6: Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW), Chwefror 2023

**27. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2023. Cadarnhawyd y cofnodion fel cofnod cywir, fel y cynigiwyd ac eiliwyd gan y Cynghorwyr Gillian Brockley a Steve Copple.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

**28. ADOLYGIAD TREIGL O GOD YMDDYGIAD Y CYNGHORWYR**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr adroddiad. Rhoddodd wybodaeth gefndir ac adroddodd ar y prif ystyriaethau, fel y manylwyd yn yr adroddiad. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried a chymeradwyo'r newidiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor Safonau i'r Cod Ymddygiad fel rhan o adolygiad parhaus o'r Cyfansoddiad. Roedd y newidiadau a argymhellwyd wedi eu hamlinellu yn adran 1.01 o'r adroddiad a'r geiriau angenrheidiol i weithredu'r newidiadau wedi'i ychwanegu i'r Cod Ymddygiad fel newidiadau drafft yn Atodiad1. Darparwyd copi glân o'r "fersiwn gorffenedig" yn Atodiad 2.

Roedd y Prif Swyddog yn ymateb i'r cwestiynau a'r sylwadau a godwyd gan Aelodau yn ymwneud â'r diffiniad o 'drosedd/ymddygiad troseddol' fel y cyfeirir yn y paragraff newidiadau arfaethedig 1.01 (vi). Eglurodd fod yna

rwymedigaeth yn y Cod Ymddygiad i Gynghorwyr adrodd am fater o drosedd/ymddygiad troseddol fyddai wedyn yn cael ei drosglwyddo i'r awdurdod priodol i gymryd camau priodol. Eglurodd y Prif Swyddog y byddai unrhyw Gynghorydd oedd yn euog o drosedd/ymddygiad troseddol yn destun y gyfraith troseddol ac os yn cael eu canfod yn euog yn destun ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Roedd y Cynghorydd Bernie Attridge yn awgrymu bod gofyniad yn cael ei gynnwys yn y Cod Ymddygiad bod holl Aelodau yn derbyn gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) manylach ar ddechrau'r tymor mewn swydd. Roedd y Prif Swyddog yn ymateb i'r pwyntiau a wnaed gan y Cynghorydd Attridge ac eglurodd y byddai'n cyflwyno adroddiad i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol i hysbysu am y cyngor cyfreithiol ar pa swyddi o fewn y Cyngor y gellir cynnal gwiriad GDG a'r angen am bolisi yn y dyfodol. Roedd y Cadeirydd yn argymell y dylid cynnwys hyn fel eitem yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i'r Pwyllgor ei ystyried ac roedd y Cynghorydd Ted Palmer yn eilio hyn. Roedd y bleidlais ddilynol o blaid y cynnig.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Ted Palmer ac Ian Hodge.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymddygiad Cynghorwyr yn cael eu cymeradwyo; a

(b) Bod adroddiad ar y potensial i gynnal gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) i holl Gynghorwyr yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

## 29. CYMERADWYO'R NEWIDIADAU A ARGYMHELLWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU I'R COD YMDDYGIAD I GYNGHORWYR FEL RHAN O ADOLYGIAD PARHAUS O'R CYFANSODDIAD.

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad yn argymell mabwysiadu'r canllaw iaith gyffredin a Chyfansoddiad wedi'i ddiweddaru. Roedd wedi darparu gwybodaeth gefndir a chyfeiriodd at y gweithgor oedd wedi ymgynnull i ystyried y materion a godwyd gan y Pwyllgor ar yr ymgynghoriad drafft mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2023. Dywedodd y Prif Swyddog fod y Pwyllgor wedi argymell bod y Cyngor yn mabwysiadu'r canllaw iaith gyffredin ar gyfer y cyfansoddiad a chafodd ei fabwysiadu gan y Cyngor mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2023. Roedd drafft o'r cyfansoddiad a'r canllaw iaith gyffredin ynghlwm i'r adroddiad. Roedd y newidiadau yr oedd y gweithgor yn eu cynnig i gyfansoddiad y Cyngor wedi eu dangos fel newidiadau, gan gynnwys y newidiadau ychwanegol a wnaed o ganlyniad i'r sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor. Adroddodd y Prif Swyddog ar y prif ystyriaethau, fel y manylwyd yn yr adroddiad.

Diolchodd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson i'r gweithgor am ei waith ar y materion a godwyd gan y Pwyllgor ar yr ymgynghoriad drafft. Cyfeiriodd at baragraff 1.14 o'r adroddiad a dywedodd ei fod yn teimlo nad oedd y pwynt a godwyd gan y Pwyllgor ynglŷn ag Undebau Llafur a pholisi rhannu pryderon y

Cyngor wedi derbyn sylw. Hefyd, cyfeiriodd y Cynghorydd Ibbotson at baragraff 4.6.21 o'r cyfansoddiad drafft oedd ynghlwm i'r adroddiad a dywedodd os mai'r bwriad oedd i'r Cyngor gynnal y broses hunanasesu yn unig, byddai'r geiriad yn cael ei adolygu i nodi hyn. Roedd y Prif Swyddog wedi ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Ibbotson ac awgrymodd bod paragraff 4.6.21 yn cael ei newid i gynnwys y canlynol "(cynnal ei ddyletswyddau perfformiad o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021)" i egluro'r ddyletswydd hunanasesu corfforaethol a chadarnhau nad oedd wedi'i fwriadu i ddileu swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Gofynnodd y Cynghorydd Ibbotson i'r eglurhad ar lafar gan y Prif Swyddog gael ei gynnwys yn y paragraff ar gyfer cadarnhad.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Ted Palmer a'u heilio gan y Cynghorydd Steve Copple.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn argymell i'r Cyngor bod y cyfansoddiad diwygiedig drafft yn cael ei fabwysiadu, gyda'r eithriad o ddisgrifiadau rôl yn Adran 31 o'r cyfansoddiad drafft ac yn ddarostyngedig i wiriad cysondeb mewnol terfynol, prawf-ddarllen a chroesgyfeirio gyda'r canllaw iaith gyffredin;

(b) bod paragraff 4.6.21 o'r Cyfansoddiad drafft yn cael ei newid i gynnwys y canlynol "(cynnal ei ddyletswyddau perfformio o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021)"

(c) Y bydd unrhyw waith ychwanegol a ystyrir gan y Pwyllgor sy'n cael ei gynnal mewn perthynas â chyfansoddiad y Cyngor yn ffurfio rhan o raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor.

**30. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL (IRPW), CHWEFROR 2023**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad i roi manylion yr adroddiad blynyddol terfynol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2023-24. Rhoddodd wybodaeth gefndir a dywedodd na fu unrhyw newidiadau i'r cynigion oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad drafft a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2022 ac felly byddai'r holl ffigyrau a ddarparwyd yn adroddiad Tachwedd yn cael eu gweithredu o 1 Ebrill 2023.

Wrth gymeradwyo'r argymhelliad, cyfeiriodd y Cynghorydd Ted Palmer at baragraff 1.05 o'r adroddiad a mynegodd bryder y gall Aelodau neu aelodau cyfetholedig deimlo dan bwysau gan y datganiad IRPW i hepgor unrhyw ran o'u hawliad i dâl o dan benderfyniad y Panel ar gyfer y flwyddyn arbennig honno. Cafodd yr argymhelliad ei eilio gan y Cynghorydd Gillian Brockley.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r penderfyniadau a wnaed gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2023/24.

**31.** **<u>Y WYBODAETH DDIWEDDARAF GAN WEITHGOR - FFORMAT CYFARFODYDD</u>**

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd gyflwyniad i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Gweithgor hyd yma a sefydlwyd i adolygu a diweddaru'r 'Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad dros dro' ac edrych ar oblygiadau unrhyw newidiadau. Roedd y cyflwyniad yn trafod y pwyntiau a ganlyn:

- nod y gweithgor
- gweithgareddau a gwblhawyd
- camau nesaf - polisi cyfarfodydd aml-leoliad

**32.** **<u>DIWEDDARIAD AR SEMINARAU, SESIYNAU BRIFFIO A GWEITHDAI AELODAU</u>**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar y digwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd neu a drefnwyd ers yr adroddiad diwethaf. Rhoddodd wybodaeth gefndir a dywedodd bod y rhaglen sefydlu wedi'i bwriadu i roi gorolwg i aelodau newydd a rhai sy'n dychwelyd o sut roedd y Cyngor yn gweithio, gan gynnwys rheolau a rheoliadau, rôl Aelodau Etholedig a rôl Swyddogion. Gan fod Aelodau nawr wedi setlo i'w rolau, roedd yn briodol ystyried sut y gallent gael eu cefnogi yn eu datblygiad dros y 4 blynedd nesaf. Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd at y prif ystyriaethau fel y manylwyd yn yr adroddiad a dywedodd bod '*dadansoddiad anghenion hyfforddiant'* holl Aelodau wedi'i awgrymu i sicrhau bod yr hyfforddiant yn berthnasol i ddymuniadau ac anghenion Aelodau a hefyd i fynd i'r afael ag unrhyw brinder sgiliau sy'n bodoli ar draws y Sir.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Ian Hodge a'u heilio gan y Cynghorydd Antony Wren

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

(a) Bod 'dadansoddiad o anghenion hyfforddiant' yn cael ei gynnal ar gyfer pob Aelod gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i lywio rhaglenni datblygu yn well yn y dyfodol.

(b) Os oedd gan Aelodau unrhyw awgrymiadau ar gyfer datblygu, eu bod yn cysylltu â'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i'w trafod; a

(c) Bod cynllun hyfforddiant a datblygu drafft yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mehefin.

**33.** **<u>MEMBERS OF THE PUBLIC AND PRESS IN ATTENDANCE</u>**

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.23pm)

................................................

**Cadeirydd**